

CADWALLON (bu farw 633), tywysog

Enw: Cadwallon

Dyddiad marw: 633

Plentyn: Cadwaladr ap Cadwallon

Rhiant: Cadfan ap Iago

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: tywysog

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: John Edward Lloyd

Mab [Cadfan](#) ydoedd, a dilynodd ei dad tua'r flwyddyn 625. Yn herwydd y rhan y bu iddo ei chwarae yn hanes Lloegr, fel yr adroddir yr hanes gan Beda, nid oes fawr o ansicrwydd ynglŷn â'i waith a'i safle yn hanes y cyfnod. Efe oedd gwrthwynebydd Edwin o Deira; gwnaeth ymdaith lwyddiannus y brenin hwn ar hyd glan môr Gogledd Cymru, gan orchfygu Môn, beri i Gadwallon fynd ar ffo a byw'n alltud, yn Iwerddon yn ôl pob tebyg, gyda gosgordd fechan a ffyddlon. Sonnir mewn hanes am un digwyddiad yn yr ymgyrch - sut na bu ond y dim iddo ddianc rhag cael ei gymryd yn garcharor yn 631 yn Ynys Lannog.

Yn 632 daeth tro rhyfedd ar fyd; gyda chymorth Penda, brenin Mercia, aeth Cadwallon ar gyrch i Deira, gan guro Edwin a'i ladd ym mrwydr Heathfield (? Hatfield, gerllaw Doncaster) - 'Meigen' yn ôl traddodiad y Cymry. Effaith y fuddugoliaeth hon oedd doddi Northumbria wrth ei draed, ac yr oedd mor drawiadol nes awgrymu bod yr awr wedi dyfod i ailsefydlu uchafiaeth y Prydeinwyr ar yr ynys. Eithr nid achubwyd mo'r cyfle, y cyfle olaf o'r fath, yn fuddiol. Ni bu i Gadwallon ddangos doniau gwladweinydd, eithr bodloni ar anrheithio'r wlad, heb arbed nac oedran na rhyw, ac, er ei fod ef ei hunan yn proffesu bod yn Gristion, anwybyddu'r Gristnogaeth a sefydlasid yno eisoes gan genhadon o Rufain. Aeth blwyddyn heibio; yn ystod y tair wythnos olaf yn 633 ceir ef gyda byddin fawr wedi gweryllu yn y rhosydd i'r de o Hexham, man a elwid yn Cantysgol gan y Cymry. Yma daeth Oswald o Bernicia ar ei warthaf ef a'i lu, ar ôl trafaelio trwy'r nos o'r Mur Rhufeinig; yr oedd y cyrch mor sydyn nes lladd Cadwallon a gyrru'r Cymry ar ffo.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 182-8

F. M. Stenton, *Anglo-Saxon England* (1943, 1947), 80-1

Bulletin of the Board of Celtic Studies, vi, 351-4

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cadwallon ap Cadfan](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q962398](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

